Gweithgaredd logo olew palmwydd cynaliadwy

Hyd: 1-2 awr

Adnoddau:

Papur A4, pensiliau lliw, Lluniau o bacedi bisgedi sy'n mynd gyda'r bwrdd gwyn.

Cefndir

Mae llawer yn cael ei ddweud am effaith negyddol y diwydiant olew palmwydd ar goedwigoedd glaw, ond credwch neu beidio, mae gan gynhyrchiant olew palmwydd rywfaint o agweddau cadarnhaol. Er enghraifft, mae'n olew llysiau cynhyrchiant uchel sy'n cynhyrchu hyd at wyth gwaith cymaint o olew am bob hectar o dir o'i gymharu ag olewau eraill fel olew blodyn yr haul. Mae hefyd yn darparu bywoliaeth i ffermwyr bach yn Indonesia a Malaysia.

Yn anffodus, mae'r galw am olew palmwydd yn golygu bod rhannau helaeth o goedwigoedd glaw yn cael eu clirio i wneud lle i goed olew palmwydd. Mae hyn yn dinistrio cynefin bywyd gwyllt, sy'n golygu bod rhai creaduriaid, fel yr Orangwtaniaid yn Borneo, ar drengi.

Beth am gael gwared ag olew palmwydd?

Ni fydd cael gwared ag olew palmwydd yn datrys y broblem. Oherwydd ei gynhyrchiant uchel, byddai angen i ni ddod o hyd i fwy o dir i dyfu cnydau gwahanol i gynhyrchu'r un faint o olew. Ar hyn o bryd, mae'n well i ni annog pobl i chwilio am ffynonellau o olew palmwydd sydd wedi'u cynhyrchu'n fwy

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

cynaliadwy, sy'n cael eu tyfu ar blanhigfeydd sy'n cael eu rheoli i ddiogelu cynefinoedd coedwigoedd glaw.

Mae sefydliad o'r enw Roundtable on Sustainable Palm Oil (RSPO) wedi cyflwyno cynllun ardystio ar gyfer Olew Palmwydd Cynaliadwy. Ni chaniateir i gynhyrchwyr olew palmwydd cynaliadwy glirio coedwigoedd glaw nac ardaloedd sy'n cynnwys crynodiadau sylweddol o fioamrywiaeth (e.e. rhywogaethau mewn perygl) neu ecosystemau bregus. "... Heddiw mae'r RSPO yn ardystio tua un rhan o bump o'r cyflenwad byd-eang.

Mae rhai archfarchnadoedd fel Sainsbury's yn nodi ar eu cynhyrchion brand eu hunain eu bod wedi'u gwneud ag olew palmwydd cynaliadwy. Fodd bynnag, nid yw'r holl archfarchnadoedd yn defnyddio logo cyffredinol ar gyfer olew palmwydd cynaliadwy eto.

Yr her!

Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i gynllunio i ysbrydoli disgyblion i ddod yn ddylunwyr ac amgylcheddwyr! Yr her yw i ddisgyblion ddylunio logo ar gyfer olew palmwydd cynaliadwy. Rydym wedi creu darn ffug o ddeunydd pecynnu cynnyrch ar gyfer rhywfaint o fisgedi Maint Cymru, ac rydym wedi gadael bwlch i ddisgyblion ddylunio logo arno.

Y ffordd orau o wneud hyn yw ar ddalen o A4 papur gydag un ymyl wedi'i blygu yn ôl i ffurfio sgwâr. Gellir taflunio delwedd o'r deunydd pacio ar fwrdd gwyn eich dosbarth, a gall disgyblion roi eu dyluniadau yn y bwlch a rhoi adborth ar ba benderfyniadau a wnaethant wrth greu eu dyluniadau. Mae logo enghreifftiol i'w lawrlwytho hefyd a gafodd ei greu gan ddisgybl, a gallwch ddangos y logo hwn i ysbrydoli eich dylunwyr ifanc.

Mae'n bwysig gwneud dyluniad sy'n drawiadol, ac un sy'n sefyll allan o flaen yr holl fisgedi eraill sydd wedi cael eu gwneud o olew palmwydd anghynaliadwy. Ceisiwch annog y defnydd o liw, a gwnewch yn siŵr fod y

Ariennir gan Lywodraeth Cymru Funded by Welsh Government

gair cynaliadwy yn sefyll allan - bydd hyn yn helpu pobl i wneud dewis gwybodus pan fyddant yn siopa.

Buasem wrth ein boddau'n gweld rhywfaint o'ch dyluniadau chi hefyd! Anfonwch nhw drwy e-bost i education@sizeofwales.org.uk.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government